Cyngor Cymuned Pistyll

## Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen Nos Fawrth, 12fed o Fehefin, 2018 am 7:00 y.h

**Yn Bresennol -** Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming(SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ) a Mair Saunders (MS), Prif Reolwr Canolfan Nant Gwrtheyrn (ar gyfer eitem 4 yn unig).

**Dechreuwyd y cyfarfod gydg eitem 4 er mwyn ymarferoldeb.**

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd -** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. **Ymddiheuriadau –** Aled Jones ac Emlyn Hughes.
3. **Datgan Diddordeb –** Neb
4. **Diweddariad a Sgwrs am Ganolfan Nant Gwrtheyrn –** Esboniodd MS gefndir yr estyniad sydd ar y gweill i adeilad siop a chaffi y Nant ac adeiladu 'meddygfa' fel canolfan ddehongli. Nododd nad oedd lleoliad mynedfa'r caffi/siop yn glir yn y gorffennol a bod y datblygiad yn darparu derbynfa a thoiledau sy'n gweddu'n well. Byddai'r Feddygfa'n seiliedig ar hen Feddygfa sinc Llithfaen ac yn cael ei datblygu mewn partneriaeth gyda'r Amgueddfa Genedlaethol. Dyma ple cychwynodd cysyniad y Nant. Trafodwyd y wal fregus o Lithfaen i'r maes parcio cyn allt y Nant. Penderfynwyd ymgynull panel i ystyried y ffordd ymlaen. *Y Clerc i drefnu cyfarfod i gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned, Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, Canolfan Nant Gwrtheyrn, AHNE Llyn a'r Tirfeddiannwr.*
   Adroddodd MS fod pobl yn parcio tros nos yn y maes parcio cyn allt y Nant ac yn gadel llanastr ar eu hôl. Pan fydd y biniau gwastraff ar y safle yn gorlifo mae'r Nant yn hysbysu'r Cyngor Sir ac mae rhywun yn dod i'w glirio bron yn syth. Nododd y Clerc mai'r drefn arferol ydyw fod y Cyngor Sir yn gwagio'r biniau pob tair wythnos. Mae'r Nant yn ymchwilio i'r posibilrwydd o roi arwydd perthnasol yno. *Penderfynwyd fod angen i'r Clerc flaenoriaethu ei ymchwil i gyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned o ran y Maes Parcio a'r Tir Comin.* Cytunwyd ar yr angen i feithrin y berthynas rhwng y Cyngor a'r Nant.
5. **Diweddariadau asedau –** Adroddodd GW ei fod wedi tynnu'r coedyn pydredig oddi ar fainc Pistyll.
6. **Cofnodion**

***6.1*** ***Cyflwyno a mabwysiadu -*** Cynigodd SW fod cofnodion y 8ed o Fai, 2018 yn gywir. Eiliodd WJ ac fe'u mabwysiadwyd.

***6.2*** ***Materion yn codi***

***6.2.1*** **Mynwent Pistyll –** Adroddodd WJ fod Natural Retreats yn fodlon talu am atgyweirio y rhan o wal y fynwent sydd dan ofal yr Eglwys. Nododd ei fod wedi sicrhau fod Natural Retreats mewn cysylltiad â'r Eglwys ynglyn a'r cynnig. *Y Clerc i yrru llythyr o ddiolch i Natural Retreats am eu haelioni.*

***6.2.2*** **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -** *Y Clerc i flaenoriaethu ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.* Adroddodd y Clerc fod Adran Priffyrdd a Bwrdeisdrefol y Cyngor Sir yn ymchwilio i'r broblem gwatraff gardd sydd ar y ffordd i gyfeiriad y chwarel. Mae Swyddog AHNE Llyn wedi ymweld a'r Safle.

***6.2.3*** **Tir Comin -** *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor o ran y Tir Comin yn lleol.*

***6.2.4*** **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio.*

***6.2.5*** **Iechyd a Diogelwch –** Mewn llaw. *Y Clerc i ddod a'r camau angenrheidiol i sylw ei olynydd.*

***6.2.6*** **Biniau Halen -** *Y Clerc i fonitro ymateb y Cyngor Sir o ran yr amodau yswiriant a chynnal a chadw yng ngyd destun biniau halen newydd.* Nododd y Clerc fod y Cyngor Sir yn adolygu eu hanfoneb am ail lenwi Biniau Halen ym mis Rhagfyr ar hyn o bryd.

***6.2.7*** **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Adroddwyd fod Heddweision cyflymdra wedi bod ym Mhentref Llithfaen ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Oherwydd y datblygiad yma ymgynghorodd y Clerc â'r Cadeirydd ac SW a gohiriwyd y llythyrau o gŵyn. Trafododd y Cyngor yr amgylchiadau a phenderfynwyd ail edrych ar y sefyllfa yng nghyfarfod Medi, 2108. *Y Clerc i atgoffa'r Cyngor.* Nododd y Clerc fod Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd y Cyngor Sir yn fodlon mynychu Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i drafod ond ei

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

fod yn awgrymu i gynrychiolydd o'r Heddlu fod yn bresennol hefyd gan mai ganddynt hwy y mae'r pwer i orfodi. *Penderfynodd y Cyngor ofyn i'r Clerc wahodd cynrychiolydd o'r Cyngor Sir a'r Heddlu i'r cyfarfod nesaf y bydd modd cael cynrychiolydd o'r ddau sefydliad gyda'u gilydd.*

***6.2.8*** **Dŵr ar lôn Rhosydd -** Nododd y Clerc fod y Swyddog perthnasol yn y Cyngor Sir wedi dweud eu bod yn ystyried y mater ymhellach ac y byddai neges yn cadarnhau'r camau nesaf yn nwylo'r Clerc erbyn cyfarfod y 2fed o Fehefin. Ni does neges i law eto. *Y Clerc i ddilyn i fyny.*

***6.2.9*** **Memorandwm Dealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant -** Yn unol â dymuniad yr Aelodau nododd y Clerc iddo gysylltu â'r Cyngor Sir i sicrhau nad yw'r Memorandwm Dealltwriaeth yn berthnasol i'r Cyngor. Esboniodd i'r Cyngor holi ymhle y mae'r gofrestr claddu ar gyfer Pistyll a chadarnhau y gallai'r gronfa fod yn berthnasol i fynwent Carnguwch yn ogystal. *LJ i holi cynrychiolydd yr Eglwys am y gofrestr a'r Clerc i gysylltu â Gwyn Roberts ynglyn ac Eglwys Carnguwch.*

***7.*** **Canolfan Llithfaen –** Nododd y Clerc iddo dderbyn llungopiau o Weithredoedd Cyn Gofrestru'r Ganolfan a'i fod wedi eu rhannu â'r Cadeirydd. *Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda SP i fynd trwy'r ddogfenaeth sydd i law o ran perchnogaeth y Ganolfan ac yna i gadw'r Gweithredoedd Cyn Gofrestru gyda'r Brydles.* Adroddwyd nad oes ymateb pellach gan Adran Gyfreithiol y Cyngor ynglyn a ffin Ty'r Ysgol nac ychwaith gan Gyfreithiwr Annibynnol y Cyngor ynglyn a'i gostau hyd yn hyn. *Y Clerc i ddilyn i fyny ymhellach. Nododd SP ei bod am holi ymhellach ynglyn a'r map gwifrau/pibellau gwasanaethau sydd ar y safle.*

**8.** **Rheoli Data -** Adroddodd y Clerc iddo dderbyn cadarnhad fod yn rhaid i'r Cyngor Gofrestru fel Rheolwyr Data erbyn y 24 o Fai, 2018. Mae'n costio £35 neu £40 i gofrestru. Wedi ymgynghori â'r Cadeirydd ac LJ daethpwyd i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor ddewis yn y mater ac aethpwyd ymlaen a chofrestru. Nid yw'r anfoneb am gofrestru wedi'i derbyn eto. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn cadarnhau'r cofrestriad ac yn cymeradwyo'r taliad. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.* Bydd y Cyngor angen dilyn y camau penodedig a nodir yng nghanllawiau NALC i gydfynd â'r Bil Rheoli Data. Cynigiodd SW fod y Cyngor yn ymgorffori'r gwaith angenrheidiol yn y Rhaglen Waith gyfredol. Eiliodd SP a chytunodd pawb.*Y Clerc i weithredu.* Nododd y Clerc fod Llywodraeth wedi cyflwyno gwelliant i'w Bil diogelu data ei hun i ecsemptio pob cyngor cymuned a thref yng Nghymru rhag y gofyniad i benodi swyddog diogelu data o dan y rheoliad diogelu data cyffredinol. Gan hynny cynigiodd SP fod y Cyngor yn gweithredu ar yr yr ecsemptiad yma a diddymu penodiad y Swyddog Diogelu Data. Eiliodd WJ a chytunodd pawb.

**9.** **Sedd Wag -** Rhoddwyd enw Ynyr Elis ymlaen i gael ei gyfethol ar y Cyngor Cymuned. Cynigiodd SW i'r Cyngor estyn gwahoddiad iddo i'r cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o'i gyfethol yn ffurfiol. Eiliodd SP a chytunodd pawb. *Y Clerc i estyn gwahoddiad.*

***10.*** **Ceisiadau Cynllunio –** Dim.

***11.*** **Adroddiadau Archwilwyr a Ffurflen Flynyddol**

***11.1*** **Adroddiad Archwilwyr Mewnol -** Cyflwynwyd Adroddiad Archwiliad Mewnol 2017/18 i'r Cyngor. Cynigiodd SW fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad. Eiliodd SP a chytunodd pawb.

***11.2*** **Ffurflen Flynyddol–**

***11.2.1*** Cwblhaodd y Cyngor y Datganiad Llywodraethu (Rhan 1 a 2) yn Ffurflen Flynyddol 2017/18 ar y cyd. Cymeradwywyd a derbynwyd y Ffurflen Flynyddol. Arwyddodd y Cadeirydd y gymeradwyaeth ar dudalen 4.

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

*11.2.2* **Atodiad 4 rhan 2 – Digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn Mawrth 2018 –** Nodwyd fo gwarged y cyfrif cyfredol ar ddiwedd 2017/18 wedi'i ddynodi ar gyfer eitemau oedd heb eu cwblhau ar y 31 Mawrth, 2018. Mae'n debygol y bydd angen arian i gefnogi prosiectau cymunedol lleol arfaethedig tros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Gyda hynny mewn golwg ac fel eglurhad pellach i eitem 10.3 yng nghofnodion y 10fed o Hydref, 2017 cynigiodd JO fod y Cyngor yn cadarnhau fod yr arian a dderbynwyd gan Gapel Uchaf (sef balans y cyfrif cadw a £600) yn cael ei gadw wrth gefn gyda'r sefyllfa i'w hadolygu mewn 3 mlynedd. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *Y Clerc i gadw nodyn o hyn.*

*12.* **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw –** Nododd WJ iddo dderbyn cwyn fod coed yn tyfu i'r ffordd wrth Tir Bach ar y ffordd o Nefyn i Pistyll. *Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir.*

*13.* **Gohebiaeth**

*13.1* **Ymgynghoriadau Cyhoeddus Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru –**
Cynigiodd GW fod gan y Cyngor ddiddordeb mewn derbyn diweddariadau ar e-bost ynglyn â'u hymgynghoriadau cyhoeddus. Eiliodd LJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i'w hysbysu.*

*13.2* **Cyflwr giat Pont Llan yng Ngharnguwch -** Nododd y Clerc iddo dderbyn gohebiaeth y dweud fod giat sydd ar bont Llan ger Eglwys Carnguwch mewn cyflwr difrifol. Mae wedi'i lleoli yn union ar y ffin rhwng Cymuned Llannor, Llithfaen a Llanaelhaearn ac ar lôn sirol. Fe'i ddefnyddir gan rai sydd am ymweld ac Eglwys Carnguwch a'r fynwent yno. Ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd gyrwyd neges e-bost i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ymchwilio i'r mater

*13.3* **Trosolwg o sut y mae cyrff y sector gyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol -** Daethpwyd a'r trosolwg i sylw'r Cyngor. Ni chafwyd sylw.

*13.4* **Adroddiadau Heneiddio'n Dda -** Daethpwyd a'r adroddiadau i sylw'r Cyngor. Ni chafwyd sylw.

*13.5* **Newyddlen Draenio Cynaladwy -** Daethpwyd a'r newyddlen i sylw'r Cyngor. Ni chafwyd sylw.

*13.6* **Bwletin Un Llais Cymru -** Daethpwyd a'r Bwletin i sylw'r Cyngor. Ni chafwyd sylw.

*13.7* **Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru -** Tynwyd sylw'r Cyngor at y Gwaith Papur a dderbynwyd ar gyfer Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru ym Mehefin 2018.

*13.8* **Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol, Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Chymysgedd Tai -**
Esboniodd y Clerc fod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cylchredeg manylion eu ymgynghoriad ar ddrafftiau ymgynghorol o Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Gymysgedd Tai a Chyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Daw'r cyfnod o ymgynghori i ben ar y 5ed o Orffennaf, 2018. Nodwyd yr wybodaeth.

*13.9* **Rhaglen WaithTrafnidiaeth a Phriffyrdd Mehefin 2018 -**
Nododd y Clerc y bydd prif doriad gwledig ffyrdd sirol Cymuned Pistyll yn cael ei gwblau rhwng yr wythnos olaf ym Mehefin a chanol Gorffennaf. Yn ogystal bydd arwisgo ar y B4417, yn Llithfaen.

*13.10* **Diwrnod y Llynges Fasnachol -** Tynwyd sylw'r Cyngor at Ddiwrnod y Llynges Fasnachol sydd i'w gynnal ar y 3ydd o Fedi, 2018. Nodwyd yr wybodaeth.

*14.* **Cyllid**

*14.1* **Cyfrifon 2017/18 –** Bydd modd i'r cyhoedd weld y cofnodion hyd at y 29/6/2018. *Y Clerc i sicrhau hyn.*

*14.2* **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf**
£160.00 Eurwyn Griffith (Cyflog). Balans yn y Banc: Cyfredol £6678.22. Cadw £2144.75

*14.3* **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -** E Griffith (Cyflog Clerc Mehefin) £160.00, Roger Owen (torri gwair mynwent Pistyll) £240.00, Osian Williams (atgyweirio wal mynwent Pistyll) £280.00.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 10fed o Orffennaf, 2018 am 7:30 y.h.**

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347